Newid yn yr hinsawdd

Gall ffermwyr dyfu nifer o gnydau eraill yn organig hefyd. Er enghraifft, gallant dyfu cotwm organig i wneud dillad organig neu lafant organig i wneud persawr organig.

Sut fedrwch chi ddweud a yw rhywbeth yn organig?

Rhaid i'r holl gynnyrch organig gaiff ei werthu yn y DU gael symbol yn dweud ei fod yn organig. Er enghraifft, fe welwch symbol Cymdeithas y Pridd ar y rhan fwyaf (70%) o fwyd organig yn y DU. Mae'r symbol yn golygu bod rhywun wedi gwirio'r cynnyrch i sicrhau ei fod yn organig o ddifri.

Ydy bwyd organig yn ddrytach?

Gall fod cynnyrch organig yn ddrytach na'r rhai sydd ddim yn organig. Mae hyn oherwydd bod ffermwyr organig yn tyfu llai i'r erw felly mae'r cynhaeaf yn llai.

SIOPAU GWYDDONIAETH CYMRU
SCIENCE • SHOPS • WALES
scishopw@glam.ac.uk • 0845 • 841 • 3545
http://www.scienceshopswales.org.uk

Bydd y bobl ychwanegol yn gwneud pethau megis chwynnu gyda'u dwylo yn hytrach na chwistrellu cae cyfan â phlaladdwr.

Diolch i www.urbanpath.com – nice things in Loondon

Ymhle fedrwch chi brynu bwyd organig?

Gallwch brynu bwyd organig yn y rhan fwyaf o archfarchnadoedd a nifer o siopau yn y Deyrnas Unedig. Yn y blynyddoedd diwethaf mae marchnadoedd ffermwyr wedi dod yn boblogaidd iawn ac mae rhan helaeth o'r cynnyrch ar werth yno yn organig. Ffordd arall o gael bwyd organig yw i dyfu eich bwyd eich hun. Mae garddio organig yn boblogaidd iawn. Cewch ddigon o gyngor mewn llyfrgelloedd, drwy glybiau garddio ac ar y wê. Os oes gennych ddiddordeb mewn tyfu bwyd organig, fe gewch gyngor gan Siopau Gwyddoniaeth Cymru.

Mwy o wybodaeth?

Cysylltwch â'r tîm yn Siopau Gwyddoniaeth Cymru ar ebost: scishopw@glam.ac.uk,neu ar y ffôn: 0845 841 3545. Ein cyfeiriad we yw: www.scienceshopswales.org.uk

University of Wales, Newport

Prifysgol Cymru, Casnewydd

BWYD ORGANIG

Tuag At Ddyfodol Cynaliadwy

SIOPAU GWYDDONIAETH CYMRU
SCIENCE • SHOPS • WALES
scishopw@glam.ac.uk • 0845 • 841 • 3545
http://www.scienceshopswales.org.uk

Beth yw bwyd organig?

Gelwir bwyd yn fwyd 'organig' os cafodd ei dyfu mewn ffyrdd sydd yn garedig i'r amgylchedd ac yn ddiogel i'r rhai sy'n ei fwyta.

Diolch i www.worthing.gov.uk

Sut mae bwyd organig yn wahanol?

Mae bwyd organig yn wahanol i fwyd heb fod yn organig mewn tair ffordd:

1. Bydd ffermwyr yn tyfu bwyd organig gan ddefnyddio ychydig iawn o wrtaith a phlaladdwyr. Mae'r rhai gwnânt eu defnyddio yn fwy tebygol o fod yn ddiogel a yn cael ychydig iawn o effaith ar yr amgylchedd. Bydd ffermwyr organig yn defnyddio gwrtaith naturiol megis tail neu wymon. Maent hefyd yn tyfu cymysgwch o gnydau sydd yn helpu cadw'r pridd yn iach.
2. Bydd ffermwyr ddim ond yn rhoi cyffuriau i anifeiliaid organig pan fyddant yn sâl. Ar ffermydd heb fod yn organig, bydd ffermwyr yn aml yn rhoi cyffuriau i anifeiliaid i'w gwneud i dyfu'n gyflymach neu rhag ofn iddynt glafychu.

Diolch i www.tutor2u.net

SIOPAU GWYDDONIAETH CYMRU
SCIENCE • SHOPS • WALES
scishopw@glam.ac.uk • 0845 • 841 • 3545
http://www.scienceshopswales.org.uk

Dyfodol Cynaliadwy
Newid hinsawdd

Gall y cyffuriau hyn aros yn y cig. Pan caiff anifeiliaid eu meithrin yn organig mae ganddynt hefyd fwy o le i fyw ynddo. Er enghraifft, mae ieir organig yn cael digonedd o heulwen ac yn gallu crwydro.

Diolch i www.farmtrails.org.uk

3. Nid oes gan fwyd organig unrhyw gynhwysion a addaswyd yn enetig. Cynhwysion a addaswyd yn enetig yw bwydydd ac anifeiliaid a gafodd eu genynnau (eu rhannau mwyaf elfennol) wedi eu newid mewn labordy gan wyddonydd. Gwneir hyn i wella'r cnwd mewn rhyw ffordd. Er enghraifft, gellid ychwanegu genynnau i blanhigion i wneud iddynt dyfu mwy neu i'w diogelu rhag heintiau.

Mae rhai pobl yn dweud na wyddwn ni ddim digon am addasu genetig i fod yn siŵr ei fod yn ddiogel. Dyna paham nad yw mewn unrhyw fwyd organig.

Ydy bwydydd organig yn well i chi?

Does neb yn gwybod yn sicr. Dywed rhai gwyddonwyr eu bod wedi darganfod mwy o ddaioni mewn rhai bwydydd organig ond nid yw gwyddonwyr eraill yn cytuno.
Mae tyfu bwyd mewn ffordd organig yn well ar gyfer tir fferm a'r amgylchedd.

Pa fath o gynnyrch fedr ffermwyr ei dyfu'n organig?

Mae'n bosibl tyfu'r rhan fwyaf o fathau o ffrwythau a llysiau'n organig. Gall ffermwyr hefyd godi'r rhan fwyaf o anifeiliaid yn organig i wneud cig, llaeth a chaws organig.

Diolch i www.ecology.com

SIOPAU GWYDDONIAETH CYMRU
SCIENCE • SHOPS • WALES
scishopw@glam.ac.uk • 0845 • 841 • 3545
http://www.scienceshopswales.org.uk